

Model Cynllunio Maes Dysgu a Phrofiad

Datganiad yn nodi sut mae'r Maes Dysgu a Phrofiad yn cefnogi'r pedwar diben

Mae datganiad yn esbonio sut mae'r Maes Dysgu a Phrofiad yn cyfrannu at bedwar diben y cwricwlwm a pham ei fod yn bwysig. Mae hefyd yn 'fynediad' i'r Maes Dysgu a Phrofiad hefyd a'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig cysylltiedig.

Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, a'u sail resymegol

Gyda'i gilydd, mae'r datganiadau hyn yn amlinellu'r agweddau hanfodol ar ddysgu yn y Maes Dysgu a Phrofiad, hynny yw 'yr Hyn sy'n Bwysig', gan ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau cyfryngol a disgyblaethol allweddol a chreu cysylltiadau â'r pedwar diben.

Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiadau y nodwyd eu bod yn allweddol i gyflawni pob Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig

I gefnogi datblygiad cwricwlwm yr ysgol mewn perthynas â'r Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig perthnasol, bydd dwy ran i'r elfen hon.

- Mynegiant o 'gynnwys' y mae'n rhaid ei gwmpasu ar ryw bwynt ar y continwwm i gyflawni'r Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig
- Amlinelliad o ddilyniant sy'n cyfleu natur gyffredinol y newid ar draws y continwwm dysgu i gyflawni'r Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig

Wrth gyfleu'r elfennau hyn, ar gyfer pob Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig, byddwn yn defnyddio'r canlynol:

- Gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau allweddol sy'n adlewyrchu'r disgyblaethau a'r parthau perthnasol sy'n rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad (mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gyfryngol a disgyblaethol)
- Dilyniannu lle bo'n briodol
- Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Ehangach
- Dimensiwn Cymreig a safbwynt rhyngwladol lle bo'n briodol

Bydd cysylltiadau â Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig eraill o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad yn ogystal â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill yn cael eu creu lle bo'n briodol.

Egwyddorion

Arweiniol i helpu i roi **Yr Hyn sy'n Bwysig** ar waith.

Bydd y rhain yn llywio'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm yn yr ysgol ac yn cefnogi ymarferwyr i gyflawni'r Maes Dysgu a Phrofiad. Yng nghyd-destun y Maes Dysgu a Phrofiad, gallai'r egwyddorion ymwneud â'r canlynol:

addysgeg

neilltuol;

asesu;

enghreifftio.

Gellid hefyd gynnwys yma ganllawiau pellach at sut y gellid mynd i'r afael ag Elfennau Trawsgwricwlaidd a chyfeiriadau at lle y gellir datblygu sgiliau Cymraeg y dysgwyr.

Elfennau Trawsgwricwlaidd

Lle bo'n briodol, dylid cyfeirio at y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd; sgiliau ehangach; y dimensiwn Cymreig a phersbectif rhyngwladol; cyfoethogi a phrofiadau ac elfennau o Yrfaoedd a'r Byd Gwaith.

Fframwaith Cynnydd

Y gwaith manwl sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar gyfer pob Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig. Dyma fydd sail y gwaith i ddatblygu'r Deilliannau Cyflawniad dros y misoedd nesaf. Bydd hefyd yn sail i'r dilyniant amlinellol a ddisgrifir yn yr elfen uchod sy'n ymwneud â gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau allweddol.

Camau Cynnydd/Deilliannau Cyflawniad

- Bydd Camau Cynnydd yn cael eu disgrifio ar bum pwynt yn y continwwm dysgu, gan ddelio'n fras â disgwyliadau ar gyfer 5 oed, 8 oed, 11 oed, 14 oed ac 16 oed.
- Bydd Camau Cynnydd ar ffurf amrywiaeth o Ddeilliannau Cyflawniad
- Drwy roi pwyslais ar gyflawniad yn ehangach, mae'r deilliannau hyn yn ehangu cwpas yr hyn yr ydym yn ei werthfawrogi yn nysgu plant a phobl ifanc.
- Caiff Deilliannau Cyflawniad eu disgrifio o safbwynt y dysgwr, gan ddefnyddio termau fel 'Rydw i wedi...' ar gyfer profiadau a 'Rydw i'n gallu...' ar gyfer y deilliannau.
- Bydd y Deilliannau Cyflawniad yn cynnwys:
 - Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiadau
 - Cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a sgiliau ehangach
 - Dimensiwn Cymreig a safbwynt rhyngwladol lle bo'n briodol
- Bydd y Deilliannau Cyflawniad yn cyfrannu at gyflawni'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'r pedwar diben.

I'w defnyddio fel pwyntiau cyfeirio ar gyfer unigolion, nid disgwyliadau ar gyfer